# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 39
TACHWEDD 2010

Wn i ddim a fuoch chi'n gwylio'r gyfres deledu 'Snowdonia 1890'? Bu'n gyfres ddifyr iawn am ddau deulu yn byw am gyfnod o fis mewn tyddynnod yn Eryri a hynny yn union fel pe baent yn byw yn y flwyddyn 1890.

Mae'r rhaglenni wedi dangos yn glir iawn pa mor wahanol i deuluoedd cyffredin oedd bywyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid oedd unrhyw sôn bryd hynny am hawliau tenantiaid fel y cyfryw ac am hynny roedd y ddau deulu yn ymwybodol y byddent yn colli eu cartrefi heb fawr o rybudd os methent â thalu'r rhent neu os tramgwyddent y landlord trahaus. Droeon yn ystod y gyfres clywsom y ddwy fam yn datgan eu pryder am brinder bwyd a'r her feunyddiol a wynebent o greu prydau maethlon a blasus allan o lysiau ac ychydig gig. Roedd pob aelod o'r teulu yn gorfod torchi llewys o gwmpas y tŷ a thu allan wrth ofalu am yr anifeiliaid. I'r chwarel yr âi'r dynion i weithio ond roedd yna daith gerdded o ddwy filltir cyn iddynt gyrraedd yno a phe baent yn hwyr roedd stiward y chwarel yn medru eu dirwyo a thynnu ceiniog neu ddwy allan o'u cyflog ar ddiwedd y mis. Ac wrth gwrs nid oedd unrhyw dâl am wyliau nac ychwaith os oeddech yn sâl yn eich gwely ac yn methu â chyrraedd y gwaith.

Rwy'n siwr fod pawb a welodd y gyfres yn falch fod bywyd wedi gwella ers y dyddiau hynny. Bellach yn 2010, mae gennym ystod amrywiol o hawliau fel unigolion; dewis eang o fwyd yn ein siopau a'n marchnadoedd; pob math o declynnau i gynorthwyo gyda'r gwaith tŷ; ceir a thrafnidiaeth cyhoeddus i'n cludo i bob man heb sôn am y gwasanaethau iechyd ac addysg. Er hynny, wn i ddim a yw popeth wedi newid er gwell. Bryd hynny yr oedd y profiad o addoli yn gyson yn bwysig i deuluoedd, nid felly heddiw. Ond fe ddiolchwn am rai pethau sy'n ddigyfnewid. Un noson fe ddangoswyd rhai o aelodau'r ddau deulu yn gwerthfawrogi'r machlud a dyma un peth sydd wedi aros yr un fath ers creu'r byd. Mae'r haul yn dal i godi a machlud bob dydd a mawr yw ein braint yma yn Aberystwyth o fedru mwynhau machludoedd gwych iawn dros Fae Ceredigion.

Mae pobl erioed wedi cael eu swyno a'u cyfareddu gan godiad a machlud haul. Bu'r salmydd Dafydd yn rhyfeddu at y ffurfafen ac yn ymgolli yn y ffordd yr oedd yr haul, gredai ef, yn amgylchynu'r wybren. Cyfeiriodd Dafydd hefyd at wres yr haul a'r ffaith nad oedd dim yn medru cuddio rhag ei wres:

Daw'r haul o'i babell megis priodfab llon
Neu fabolgampwr cryf yn curo'i fron.
Amgylchu'r wybren y mae'i daith a'i des,
Ac nid oes dim yn cuddio rhag ei wres.

Salm 19: 4-6 (*Salmau Cân Newydd*, Gwynn ap Gwilym)

Fel Dafydd ni fedrwn ninnau chwaith guddio rhag gwres yr haul. Er y byddwn yn medru chwilio am gysgod mae gwres yn union fel oerni yn treiddio i bob man, fel dŵr a thamprwydd. Mae geiriau'r salmydd yn ein hatgoffa hefyd nad yw hi'n bosib cuddio nac osgoi gwres cariad Duw. Mae cariad Duw bob amser yn barod i dreiddio i ddyfnderoedd ein bodolaeth. Mae yn ein hamgylchynu, yn ein cynnal a'n cadw ymhob dim a hynny hyd yn oed yng nghymdeithas yr unfed ganrif ar hugain sydd mor ysbrydol oer. Wrth i'r dyddiau fyrhau ac i'r hydref droi yn aeaf a gwres heulwen yr haf yn teimlo mor bell i ffwrdd diolchwn am oleuni a chynhesrwydd digyfnewid ei gariad Ef; 'nid oes dim yn cuddio rhag ei wres'.

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR MIS TACHWEDD 2010**

| | | |
|---|---|---|
| 7fed Tachwedd 2.30yp | Oedfa Gyflwyno a Chymun | Bwrdd y Cymun : Mervyn a Sue Hughes |
| 14eg Tachwedd 10.00yb | Oedfa Deuluol<br>D.S.Fe fydd yr oedfa yn cychwyn am 10.00yb | |
| 21ain Tachwedd 2.30yp | Oedfa Bregeth<br>Fe fydd Bethel yn uno â Horeb.<br>Pregethir gan y Br. Lyn Lewis Dafis | Gofal y Te: |
| 28ain Tachwedd 10.30yb | Oedfa Sul Cyntaf yr Adfent<br>Clwb Sul | |
| 5ed Rhagfyr 2.30yp | Oedfa Gymun | Bwrdd y Cymun:Mervyn a Sue Hughes |

**I'CH DYDDIADUR**

10 Tachwedd : Cinio Cymunedol Neuadd yr Eglwys.
14 Tachwedd: Oedfa Gomisiynu Efan Miles Williams, Swyddog Plant ac Ieuenctid yng Nghapel Rhydlwyd, Lledrod am 2yp.
16 Tachwedd : Cymdeithas Bethel yng nghwmni Mrs Meryl Thomas am 2yp.
17 Tachwedd: Cymdeithas y Penrhyn: Manon Steffan Ros, 'Dylanwad Hel Achau wrth Lenydda' am 7.30yh.
24 Tachwedd : Cinio Cymunedol Neuadd yr Eglwys.
24 Tachwedd : Pwyllgor 'Os Mêts' am 7yh yn festri'r Garn.
30 Tachwedd: Cwrdd Gweddi Misol am 7.30yh.
6 Rhagfyr : Cinio Cymorth Cristnogol : Eglwys Llanbadarn: 12.00-1.30yp
8 Rhagfyr : Cinio Cymunedol : Neuadd yr Eglwys : Horeb yn gyfrifol am weini.
15 Rhagfyr : Cinio Nadolig Cymdeithas Bethel: Ffarmers, Llanfihangel y Creuddyn am 12.30yp.

**LLOFFION**

**Dymuniadau Gorau** i Mr Henry Thomas sydd wedi bod yn yr ysbyty.

**Taith Dewi Sant** : Diolch i bawb a gynorthwyodd ymhob ffordd gyda holl drefniadau a gweithgaredd Taith Dewi Sant. Bu'r cyfan yn fendithiol iawn a mawr yw'r gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth i'r fenter.

**Cinio Nadolig Cymdeithas Bethel**: Bydd angen rhoi gwybod i'r Gweinidog beth yw eich dewis fwyd erbyn cychwyn mis Rhagfyr. Rhowch wybod os bydd angen cludiant arnoch i fynd draw i'r 'Ffarmers'. Croeso cynnes i bawb!

**Gair y Dydd**: Os oes rhywun yn dymuno archebu copi o 'Gair y Dydd', cysylltwch â Ceris. Cost am y flwyddyn yw £6.